Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Glan-y-Môr**
**Heol Elfed**
**Porth Tywyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA16 0AL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2017**

## Cyd-destun

Ysgol gydaddysgol cyfrwng Saesneg 11-16 yn Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Glan-y-Môr. Mae 464 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu â 584 pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2010.

Mae tua 29% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 17.1% ar gyfer ysgolion uwchradd. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Daw tua 3% o'r disgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY).

Mae gan ryw 50% o ddisgyblion angen addysgol arbennig; mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1%. Mae gan ryw 4% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer Cymru gyfan, sef 2.4%.

Mae'r ysgol yn 'ysgol arloesi dysgu proffesiynol' ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill sy'n arloesi i ddatblygu model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan-y-Môr yn 2016-2017 yw £5,432. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Gâr yw £5,432 a'r isafswm yw £3,584. Mae Ysgol Glan-y-Môr yn gyntaf o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir Gâr o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Yn 2014, ffedereiddiodd Ysgol Glan-y-Môr ag Ysgol Bryngwyn. Mae'r ysgolion yn rhannu pennaeth gweithredol, uwch dîm arweinyddiaeth a chorff llywodraethol cyffredin, ond mae ganddynt gyllidebau ar wahân a phennaeth ysgol ar gyfer pob safle. Dechreuodd pennaeth Ysgol Glan-y-Môr ar ei swydd ym mis Ebrill 2017. Mae uwch dîm arweinyddiaeth y ddwy ysgol yn gweithio ar draws y ffederasiwn i raddau amrywiol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r safonau cyffredinol a gyflawnir gan ddisgyblion wedi gwella'n sylweddol ers ffedereiddio ac maent ymhell uwchlaw disgwyliadau erbyn hyn
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf bron ym mhob dangosydd o gyfnodau allweddol blaenorol, a chynnydd rhagorol ym mwyafrif y dangosyddion allweddol, yn enwedig y rheiny sy'n cynnwys Saesneg
- Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg yn gryfder arwyddocaol
- Mae presenoldeb disgyblion uwchlaw deilliannau wedi'u modelu yn gyson
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd da sy'n cyfrannu'n dda iawn at ddatblygiad a chynnydd disgyblion
- Mae ystod a chwmpas y cyfleoedd niferus y mae'r ysgol yn eu darparu i bob grŵp o ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) yn eithriadol o gryf

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr ar draws y ffederasiwn yn darparu cyfeiriad strategol rhagorol ar gyfer yr ysgol
- Mae arweinwyr ar bob lefel yn rhannu gweledigaeth glir, sy'n canolbwyntio ar godi safonau a sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn ganolog i waith yr ysgol
- Mae corff llywodraethol y ffederasiwn yn darparu lefel gyson uchel o her a chymorth i'r ysgol
- Mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws y ffederasiwn wedi sicrhau gwelliannau rhagorol i safonau, profiadau dysgu, a lefelau uchel cynaledig o bresenoldeb
- Mae gan yr ysgol ystod helaeth o bartneriaethau o ansawdd da sy'n cael effaith sylweddol ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth
- Mae gan yr ysgol drefniadau eithriadol o gryf ar gyfer nodi a bodloni anghenion datblygiad proffesiynol staff addysgu a staff cymorth
- Ers ffedereiddio, mae'r ysgol wedi arfarnu a rheoli ei gwariant cyllideb a dyrannu adnoddau yn eithriadol o drylwyr

## Argymhellion

A1 Gwella addysgu ac asesu i weddu i'r gorau yn yr ysgol

A2 Gwella trylwyredd rheolaeth llinell i sicrhau cysondeb mewn arweinyddiaeth ganol ar draws yr ysgol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Ers ffedereiddio yn 2014, mae'r ffocws craff a chynaledig ar berfformiad disgyblion wedi arwain at duedd eithriadol o welliant yng nghyfnod allweddol 4 yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol. Mae'r cynnydd sylweddol hwn wedi sicrhau bod deilliannau disgyblion yn y dangosyddion hyn wedi aros ymhell uwchlaw deilliannau ysgolion tebyg yn y blynyddoedd diwethaf.

Dros gyfnod, mae perfformiad wedi cynyddu'n sylweddol yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg, ac mae perfformiad yn y mesur hwn gryn dipyn uwchlaw perfformiad mewn ysgolion tebyg erbyn hyn.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ymhell uwchlaw deilliannau wedi'u modelu. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn hanner uwch yr ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Bron ym mhob dangosydd arall, mae perfformiad wedi gwella ac yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaleddau teuluol a chenedlaethol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf bron ym mhob dangosydd o gyfnodau allweddol blaenorol, a chynnydd rhagorol ym mwyafrif y dangosyddion allweddol, yn enwedig y rheiny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi cynyddu'n sylweddol dros gyfnod, ac mae'n cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ar y cyfan.

Ar draws yr holl ddangosyddion a'r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4, mae bechgyn a merched yn perfformio'n dda o gymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg. Er enghraifft, mae perfformiad merched mewn Saesneg ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer merched mewn ysgolion tebyg ac yn llawer cryfach na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn.

Er y bu ychydig bach o ostyngiad yn 2016, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi bod yn gryf dros gyfnod ac yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar gyfer y disgyblion hyn yn cymharu'n dda ar gyfer trothwy lefel 2 hefyd. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd llawer gwell na'r disgwyl yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o gymharu â'r un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad gan ddisgyblion mwy abl wedi gwella dros gyfnod, yn enwedig mewn Cymraeg a Saesneg. Yn 2016, er bod llai o ddisgyblion ar y cyfan wedi llwyddo i gyflawni pum gradd A* neu A yng nghyfnod allweddol 4, parhaodd perfformiad merched i wella'n

sylweddol yn y dangosydd hwn. Nid yw perfformiad bechgyn yn y dangosydd hwn yn cymharu cystal â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg dros gyfnod.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn naill ai mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

Mae perfformiad mewn Cymraeg yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn dilyn y cwrs llawn mewn Cymraeg, ac mae mwyafrif ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2. Mae'r ffaith fod lleiafrif o ddisgyblion yn cyflawni'r graddau uwch yn nodwedd gref iawn. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd sydd gryn dipyn yn well na'r disgwyl mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Cymraeg ar lefel 5 neu'n uwch uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ar y cyfan.

Ar draws y cwricwlwm, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae'r disgyblion hyn yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae'r disgyblion prin sy'n colli diddordeb yn eu gwaith yn ystod gwersi yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig.

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio termau pynciol allweddol yn hyderus wrth ymateb i gwestiynau mewn gwersi. Mae llawer ohonynt yn cynnig cyfraniadau addas at drafodaeth ddosbarth ac maent yn huawdl ac yn gallu mynegi eu hunain yn rhugl. Mae rhai ohonynt yn amharod i gyfrannu heb anogaeth gan eu hathrawon.

Wrth ddarllen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o destun. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau ar bynciau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn hyderus, ac yn defnyddio cyd-destun yn dda i ddehongli ystyr geiriau anghyfarwydd. Mae'r disgyblion hyn yn rhoi sylwadau ar ddefnyddioldeb, dibynadwyedd a thueddiad eu ffynonellau hefyd, er enghraifft yn eu gwaith ar Frwydr Hastings. Mae llawer ohonynt yn dod o hyd i ffeithiau, er enghraifft wrth astudio newid yn yr hinsawdd a manteision ac anfanteision gwahanol fathau o ffynonellau ynni. Mae disgyblion mwy abl yn dangos dealltwriaeth dda o destunau hwy a mwy cymhleth sy'n cyfleu ystod o syniadau. Er enghraifft, gallant ystyried a nod ystod o dystiolaeth i gysylltu nodweddion cymeriadau a phrif themâu wrth ystyried sgript 'Blood Brothers'.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda graddau da o gywirdeb technegol gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Gallant fabwysiadu'r dôn briodol wrth ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion, er enghraifft cyfansoddi araith ar fanteision a pheryglon y rhyngrwyd. Mae llawer o ddisgyblion sydd â medrau sylfaenol gwan yn ysgrifennu paragraffau byr yn dda gan ddefnyddio brawddegau syml ar destunau cyfarwydd. Mae rhai disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n rhugl ac yn ddifyr mewn ystod eang o gyd-destunau, er enghraifft wrth gymharu a chyferbynnu cerddi. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd gofal i gyflwyno eu gwaith yn glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif cryf yn gymwys mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm. Gallant ddefnyddio graddfeydd ar fap yn effeithiol i gyfrifo pellterau, a phennu cost prosiectau yn gywir, yn ogystal â

defnyddio geometreg i ddylunio motiffau ar gyfer gemwaith. Ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau trin data cadarn ac yn creu graffiau addas i ddangos eu canfyddiadau.

Wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau gwerth chweil. Gallant ddefnyddio a diwygio taenlenni yn briodol i ddadansoddi a dangos data, a chreu cronfeydd data yn bwrpasol i drefnu ac archwilio gwybodaeth.

Yn arbennig, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau buddiol eraill trwy eu gwaith mewn prosiectau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Mae'r rhain yn cynnwys medrau cyfathrebu, datrys problemau ac entrepreneuraidd cryf iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos y medrau caffaeledig hyn yn yr ysgol, a rhai ohonynt i gynulleidfaoedd ehangach ledled Cymru a'r byd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at fwyta'n iach ac ymarfer corff, er enghraifft trwy gymryd rhan yn rhaglen chwaraeon a gweithgareddau corfforol yr ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n dda dros y pedair blynedd ddiwethaf ac maent wedi bod cryn dipyn uwchlaw deilliannau wedi'u modelu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda iawn â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Yn ychwanegol, mae absenoldeb parhaus wedi gostwng yn sylweddol yn y pedair blynedd ddiwethaf ac mae islaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a pharchus ag oedolion a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn dal ati i ganolbwyntio'n effeithiol ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion bob amser yn dangos parch at ddisgyblion a phobl eraill o gwmpas yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniad defnyddiol at ddylanwadu ar agweddau ar fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy waith y cyngor ysgol a'r tîm eco. Fodd bynnag, ni chaiff y gwaith hwn ei rannu'n ddigon da bob amser, ac mae lleiafrif o ddisgyblion yn ansicr ynglŷn â natur ac effaith gwaith y cyngor ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch a phryder at bobl eraill trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol yn yr ysgol a'r gymuned leol, er enghraifft, wrth godi arian i gefnogi Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). Mae'r gweithgareddau hyn yn eu helpu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd da sy'n cyfrannu'n dda iawn at ddatblygiad a chynnydd disgyblion.

Mae ystod a chwmpas y cyfleoedd niferus y mae'r ysgol yn eu darparu i bob grŵp o ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau STEM yn nodwedd eithriadol. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith prosiect ar gyfer busnesau lleol, heriau robotaidd, cyfoedion yn addysgu codau a threfniant helaeth o gysylltiadau â chyflogwyr ac ysgolion eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn lleol, yn genedlaethol neu rai ohonynt yn rhyngwladol, hyd yn oed. Yn ogystal â chefnogi medrau cyfathrebu, arwain ac entrepreneuraidd, maent yn darparu llwyfan i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n ofalus i fodloni anghenion pob disgybl. O ganlyniad, gall disgyblion ddilyn ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae llwybrau wedi'u teilwra'n dda yn unol ag anghenion a dyheadau unigol. Mae cysylltiadau ag Ysgol Bryngwyn yn galluogi disgyblion o Ysgol Glan-y-Môr i fanteisio ar ddarpariaeth alwedigaethol werthfawr, er enghraifft trwy'r ganolfan adeiladu newydd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddeilliannau rhagorol yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol wedi rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith yn effeithiol. Mae'n darparu strategaethau gwerth chweil i gynorthwyo disgyblion sydd â medrau llythrennedd gwannach hefyd trwy wneud defnydd hynod effeithiol o gynorthwywyr addysgu. Ceir darpariaeth gyson dda ar gyfer datblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Ceir ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon, clybiau gwaith cartref a theithiau.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion, a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru yn hynod effeithiol. Mae'n darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau Cymraeg yn greadigol y tu allan i'w gwersi iaith. Mae menter 'Ymlaen Nawr' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion arwain ar ystod eang o weithgareddau allgyrsiol llwyddiannus fel 'Diwrnod Shwmae'.

**Addysgu: Da**

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu addysgu i wella cyflawniad ei disgyblion. Mae addysgu effeithiol yn cyfrannu'n dda at ddeilliannau uchel ar gyfer mwyafrif y disgyblion yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc dda. Maent yn cynllunio'n effeithiol ac mae ganddynt amcanion dysgu clir ar gyfer gwersi, gan gynnwys i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion lle bo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn fodelau iaith cryf. Mewn gwersi, gan gynnwys y rheiny mewn Cymraeg ac ieithoedd tramor modern, mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o iaith i ddatblygu medrau gwrando a siarad disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Yn y gwersi hyn, mae athrawon a disgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio rhagorol, sy'n barchus ar y ddwy ochr. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion. Defnyddiant ystod o ddulliau ac adnoddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion a'u herio i gyflawni'n dda.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus iawn i fodloni anghenion pob disgybl. Maent yn cymell ac yn ysgogi disgyblion fel eu bod yn dod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain. Mae'r athrawon hyn yn gwneud defnydd effeithiol iawn o amser ac yn cyflwyno gwersi ar gyflymdra heriol. Defnyddiant holi o ansawdd da yn fedrus i ymestyn a dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

Mewn rhai gwersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel ac nid yw'r addysgu yn herio pob disgybl. Nid yw ystod y technegau addysgu yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus, ac mae rhediad y dysgu yn rhy araf. Mae holi gan athrawon yn gaeedig ac nid yw'n ennyn diddordeb digon o ddisgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfleoedd rheolaidd a defnyddiol i wirio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Yn y mwyafrif o bynciau, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol i helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent wedi gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae disgyblion yn defnyddio'r ysgogiadau hyn yn dda i wneud diwygiadau gwerthfawr i'w gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, nid yw athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion sy'n ddigon buddiol. O ganlyniad, mae dealltwriaeth disgyblion o sut i wella'u gwaith yn amrywio rhwng pynciau.

Mae'r ysgol yn gosod targedau uchelgeisiol ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u lefelau a'u graddau targed. Mae arweinwyr yn monitro perfformiad yn agos, yn nodi tangyflawniad ac yn cynllunio'n dda i wella deilliannau disgyblion. Mae adroddiadau interim rheolaidd ac adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gofal, cymorth ac arweiniad personoledig ar gyfer pob disgybl yn ganolog i waith Ysgol Glan-y-Môr.

Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw ac mae ganddi drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ganddi strategaethau

sefydledig i gadw disgyblion yn ddiogel ac annog agweddau cadarnhaol. Mae'r system arloesol a llwyddiannus ar gyfer gwobrwyo ymddygiad da yn nodwedd nodedig yn yr ysgol. Yn ychwanegol, mae gan yr ysgol system gymorth gref ar gyfer sicrhau presenoldeb gwell.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r rhaglen yn helpu disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau cymdeithasol ac emosiynol yn dda a gwerthfawrogi'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol eraill.

Mae trefniadau pontio ar gyfer disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi cyngor buddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11 i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn cael cyngor a chymorth gwerth chweil ar yrfaoedd gan aelodau o'r gymuned fusnes leol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o asiantaethau allanol i fodloni anghenion penodol pob disgybl. Mae staff yn yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion yn dda hefyd. Mae'r strategaethau buddiol hyn wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y gyfradd presenoldeb uchel a'r deilliannau gwell yng nghyfnod allweddol 4.

Ceir cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr i nodi a bodloni anghenion penodol y disgyblion hyn. Mae cynorthwywyr addysgu yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at lefel uchel y gofal a'r cymorth a roddir. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn briodol. Mae'n croesawu rhieni i'r ysgol i drafod pryderon ac yn eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Glan-y-Môr yn ysgol gynhwysol, groesawgar a gofalgar, sy'n gwerthfawrogi [pob un o'r staff a'r disgyblion. Caiff datganiad cenhadaeth yr ysgol, sef "Ymdrech a Lwydda – Success through Effort" ei gyfleu yn effeithiol. Mae hyn yn annog disgyblion i gael agweddau cadarnhaol at eu gwaith a mwynhau dysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb elwa ar y cwricwlwm trwy amrywiaeth o strategaethau priodol. Er enghraifft, mae grŵp Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) sefydledig.

Mae adeiladau'r ysgol mewn cyflwr da ac wedi'u haddurno'n dda, ac mae adnoddau dysgu boddhaol ar draws yr ysgol, gan gynnwys TGCh. Ceir canolfan adnoddau dysgu ag offer da sy'n cynnwys ystod dda o lyfrau ac offer cyfrifiadurol. Mae ystafell y synhwyrau yn nodwedd nodedig. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n defnyddio'r ganolfan yn gwerthfawrogi'r cyfleuster hwn. Ceir cyfleusterau da ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon, ac fe gaiff pob disgybl yr un cyfle i elwa ar y ddarpariaeth.

Mae safon arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn uchel iawn ar y cyfan, maent yn addysgiadol ac yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn effeithiol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth ffederasiwn Ysgol Glan-y-Môr ac Ysgol Bryngwyn yn nodwedd ragorol sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at sicrhau safonau uchel iawn a lefelau cryf o les disgyblion. Mae wedi galluogi'r ddwy ysgol i wneud gwelliannau sylweddol a chyflym i lawer o agweddau ar eu darpariaeth. Mae uwch arweinwyr wedi bod yn hynod effeithiol yn cynllunio'r trosglwyddo i weithio fel ffederasiwn ac maent wedi rheoli'r heriau sylweddol yn sgil y broses hon yn eithriadol o dda.

Mae pennaeth y ffederasiwn yn darparu arweinyddiaeth ddynamig ac ysbrydoledig. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol sy'n canolbwyntio'n gryf ar wneud y gorau o gyflawniad a lles pob disgybl unigol. Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu yn glir ac fe gaiff ei deall yn dda gan bob un o'r staff. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws y ffederasiwn. Ceir cydbwysedd da o ran rolau a chyfrifoldebau ac maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau strategol y ddwy ysgol a'r ffederasiwn yn gyffredinol. Mae'r ffordd fedrus y mae rolau arwain ar draws y ffederasiwn wedi cael eu datblygu a'u mireinio'n barhaus i wneud y defnydd gorau o gryfderau staff unigol yn nodwedd ragorol. Mae hyn wedi galluogi'r ddwy ysgol i ddatblygu gallu arweinwyr yn gryf i wneud gwelliannau i lawer o feysydd o waith y ffederasiwn.

Ar draws y ffederasiwn, ceir dull cyson a chadarn o reoli perfformiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, gosodir targedau gwella heriol ar gyfer staff sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Mae'r amcanion hyn wedi'u cysylltu'n glir ag anghenion datblygu staff unigol, yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol, blaenoriaethau'r ffederasiwn a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgolion hefyd. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn yn drylwyr, ac maent yn effeithiol o ran cynllunio gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n helpu staff i wneud cynnydd cryf tuag at y targedau hyn. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda iawn at welliannau sylweddol mewn safonau, lles a darpariaeth.

Mae lefel uchel y cydweithio rhwng staff ar draws y ddwy ysgol yn gryfder nodedig yn y ffederasiwn. Mae hyn wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus o ran eu galluogi i rannu arfer dda ac mae wedi cael effaith sylweddol ar wella ansawdd y ddarpariaeth yn y ddwy ysgol.

Yn Ysgol Glan-y-Môr, yn y rhan fwyaf o achosion, mae arweinwyr yn dwyn staff i gyfrif yn drylwyr. Mae deialog broffesiynol reolaidd rhwng uwch arweinwyr, arweinwyr canol a staff eraill yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n agos ac yr eir i'r afael â meysydd tanberfformio yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, ni chaiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif yn ddigon trylwyr i wneud yn siŵr eu bod yn sicrhau'r lefelau uchel o welliant a gyflawnir yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith yr ysgol.

Mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth gynhwysfawr o ddata perfformiad. Mae eu dadansoddiad manwl o'r data hwn yn eu galluogi i gynllunio ymyriadau disgyblion ac addasiadau i ddarpariaeth sy'n cael effaith sylweddol ar safonau.

Mae'r ffordd y caiff y ffederasiwn ei lywodraethu yn gryfder sylweddol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o berfformiad y ddwy ysgol, ac maent yn darparu lefelau uchel o gymorth a her i'r ffederasiwn. Gwnânt gyfraniad effeithiol at brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant y ffederasiwn. Defnyddir profiad ac arbenigedd llywodraethwyr yn dda i gefnogi llawer o agweddau ar ddarpariaeth y ffederasiwn. Mae llywodraethwyr unigol yn gysylltiedig â meysydd pwnc ac agweddau penodol eraill ar ddarpariaeth yr ysgolion, ac mae hyn yn rhoi cymorth gwerthfawr i arweinwyr canol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn Ffederasiwn Bryngwyn-Glan-y-Môr wedi sicrhau gwelliannau rhagorol i safonau, profiadau dysgu, a lefelau uchel cynaledig o bresenoldeb yn Ysgol Glan-y-Môr. Cyflawnwyd y gwelliannau nodedig hyn tra'n cynnal safonau, gofal, cymorth ac arweiniad cyson gryf a datblygu addysgu rhagorol yn Ysgol Bryngwyn.

Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o ddata perfformiad yn effeithiol iawn. Mae'r dadansoddiadau hyn yn cyfrannu'n dda at adroddiadau hunanarfarnu gonest a thrylwyr y ddwy ysgol. Maent yn cynnal adolygiadau ysgol gyfan gwerthfawr o addysgu ac asesu ac arolygon o farn disgyblion a rhieni ar eu profiadau. Mae'r defnydd hwn o dystiolaeth uniongyrchol, ynghyd ag adolygiadau allanol, yn rhoi dealltwriaeth gywir i uwch arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth fanwl hon yn graff i osod blaenoriaethau clir a chynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae adolygiadau ysgol gyfan o addysgu wedi arwain at gyfleoedd datblygiad proffesiynol cynhwysfawr sydd wedi'u cysylltu'n dda ag anghenion unigolion. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y ddwy ysgol.

Mae cynllun gwella'r ffederasiwn yn cofnodi prif flaenoriaethau gwella'r ddwy ysgol yn dda. Mae'n ddogfen gynhwysfawr sy'n cynnal ffocws cryf ar bum nod strategol tymor hir y ffederasiwn yn llwyddiannus. Mae cynlluniau gwella unigol yr ysgolion yn amlinellu eu blaenoriaethau ac yn cysylltu'n dda â hunanarfarnu. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd tuag at yr amcanion hyn yn agos ac yn gwneud diwygiadau addas.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn defnyddio eu dealltwriaeth o ddata perfformiad yn dda i gynllunio newidiadau i ddarpariaeth fel cynlluniau gwaith ac arferion asesu. Mae'r holl adroddiadau hunanarfarnu yn cysylltu'n dda â'u cynlluniau datblygu priodol. Fodd bynnag, nid yw rhai cynlluniau gwella adrannol yn ddigon manwl gywir ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da â blaenoriaethau ysgol gyfan.

O ganlyniad i hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella hynod effeithiol a chyson, mae'r ffederasiwn wedi gwneud cynnydd eithriadol o dda o ran mynd i'r afael ag argymhellion arolygiadau blaenorol.

## Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae’r ysgol wedi datblygu perthnasoedd gweithio rhagorol gydag ystod eang o bartneriaid sy’n cyfrannu’n sylweddol at ddarpariaeth a safonau.

Mae sefydlu ffederasiwn cryf a llwyddiannus gydag Ysgol Bryngwyn wedi bod yn werthfawr i’r ddwy ysgol. Maent wedi elwa’n sylweddol ar ddatblygiad proffesiynol a chynllunio dilyniant ar y cyd. Hefyd, mae amserlennu ar y cyd wedi galluogi’r ysgolion i ehangu ystod y pynciau sydd ar gael i ddisgyblion yn llwyddiannus. At ei gilydd, mae’r cydweithio wedi cael dylanwad cryf a chadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Mae’r ysgol yn gweithio’n eithriadol o dda gyda busnesau lleol, gan gynnwys y rheiny sy’n gysylltiedig â datblygu gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Mae profiadau STEM yn Ysgol Glan-y-Môr yn cynnwys ystod o weithgareddau byd go iawn y mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw gyda chyflogwyr, er enghraifft mynd i’r afael â heriau technolegol a pheirianneg diwydiannol. Mae’r cynllun wedi ennyn diddordeb a chymell disgyblion o bob gallu ac mae’r ysgol wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol am ei llwyddiannau niferus yn y maes hwn.

